Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cymorth Pontio i Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru

## Aelodau sy'n ymadael â'r Portffolio ar ôl 31 Mawrth 2024

Medi 2023


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cynnwys


1. Beth yw cymorth pontio? ..... 3
2. Pam rydym ni'n cynnig cymorth? ..... 3
4. Am faint y gallaf wneud cais? ..... 6
5. Pwy sy'n gymwys i dderbyn cymorth? ..... 6
6. Amcanion y rhaglen ..... 7
7. Proses derbyn ..... 8
8. Sut y byddwn yn asesu eich cais? ..... 9
9. A fydd y Cyngor yn cynnig cymorth pontio yn y blynyddoedd i ddod? ..... 9


### Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, Braille, Arwyddeg, Hawdd ei Darllen ac ar ffurf sain. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Rydym yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## 1. Beth yw cymorth pontio?

Mae cymorth pontio yn rhan bwysig o'n dull o weithio yn sgil canlyniadau ein Hadolygiad Buddsoddi. Mae'r cymorth pontio a gynigiwn yn gynllun â therfyn amser gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd ceisiadau ddim ond yn agored i Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru sy'n aflwyddiannus yn eu cais i Adolygiad Buddsoddi 2023 ac y bydd eu harian yn dod i ben ar 1 Ebrill 2024. Ni fydd yn agored i ymgeiswyr aflwyddiannus eraill gan gynnwys sefydliadau sy'n derbyn cynnig llai.

Bydd y cymorth yn gymysgedd o gymorth ariannol, a gynigir ochr yn ochr â chymorth ymarferol arall, ar adeg arbennig o heriol i sefydliadau sy'n ymadael â'r Portffolio.

Dim ond os ydych yn gofyn am gymorth ariannol (arian pontio) y bydd angen i chi wneud cais ffurfiol. Bydd y ddogfen yma'n esbonio pwy fydd yn gymwys a sut i wneud cais. Os nad ydych yn gofyn am arian ychwanegol, yna gellir cytuno ar y mathau eraill o gymorth sydd yn y ddogfen yma gyda staff y Cyngor heb lenwi ffurflen gais o gwbl.

## 2. Pam rydym ni'n cynnig cymorth?

Mae ein Hadolygiad Buddsoddi wedi cynnwys adolygiad manwl o'n hariannu presennol. Ein nod yw cyrraedd diwedd y broses a bod mewn sefyllfa lle rydym yn cynnig arian amlflwyddyn i sefydliadau sy'n egnïol yn artistig, yn ariannol gadarn a chyda lefel o fuddsoddiad sy'n gynaliadwy o ystyried y cyd-destun economaidd anodd.

Mae'r graddau y gallwn gyflawni'r nod hwn yn dibynnu ar yr arian

sydd ar gael i ni, a'r dewisiadau strategol a wnawn.

Nodwyd yn ein hymgynghoriadau Adolygiad Buddsoddi yn ail hanner 2022 fod y sector eisiau i ni wneud pethau'n wahanol a bod angen newid y model ariannu presennol. Bydd y newid yna'n dod â chyfleoedd i sefydliadau newydd dderbyn arian mwy rheolaidd ac yn ein helpu i gefnogi chwe egwyddor yr Adolygiad Buddsoddi:

- Creadigrwydd
- Ehangu ymgysylltiad
- Y Gymraeg
- Cyfiawnder hinsawdd
- Meithrin talent
- Trawsnewid

Dan y model newydd arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, mae symudiad oddi wrth ariannu Portffolio o gwmnïau tuag at gymysgedd o gytundebau arian refeniw a phrosiectau amlflwyddyn. Ym mis Medi 2023 byddwn wedi gwneud penderfyniadau mewn egwyddor am ba sefydliadau fydd yn cael yr arian amlflwyddyn. Mae'n debygol, o ganlyniad i'n penderfyniadau, y bydd rhai sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn peidio â derbyn eu cymorth refeniw rheolaidd arferol tuag at gostau craidd o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi heb ei anawsterau. Nid yw gwneud penderfyniadau yn ystod cyfyngiadau ariannol ac mewn cyfnod o gyni byth yn hawdd. I rai, bydd canlyniad yr Adolygiad Buddsoddi yn destun siom a phryder. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni roi'r gorau neu leihau arian i sefydliadau sy'n cyflawni gwaith o safon oherwydd bod eraill yn cyflwyno gwell achos dros fuddsoddi ynddynt neu fod ein data'n dangos bod angen rhagor o fuddsoddiad yn eu maes nhw.

Cafodd pob aelod o'r Portffolio dros flwyddyn o rybudd bod ei arian yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024. Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yn eu cais i'r Adolygiad Buddsoddi yn newid i batrwm ariannu amlflwyddyn heb unrhyw doriad yn eu harian – hyd yn oed o gael lefel wahanol o arian i'r blynyddoedd a fu. Ond i rai, bydd eu patrwm ariannu rheolaidd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Hyd yn oed gyda'r rhybudd, pan fyddwn yn rhoi'r gorau i ariannu'n rheolaidd aelodau o'r Portffolio, gwyddom y bydd yn heriol iawn iddynt ar ôl cael y sefydlogrwydd ariannol cymharol. Gall y model gweithio ag arian Portffolio fod yn wahanol iawn i'r model ag arian prosiect. Dyma un o'r prif resymau pam rydym yn ceisio agor y model ariannu amlflwyddyn ar gyfer rhagor o sefydliadau. Felly, gallai symud oddi wrth arian pob blwyddyn yn y Portffolio olygu newid mawr yn ffordd o weithio'r sefydliadau. Gallai olygu, ymhlith pethau eraill, newidiadau yn y canlynol:

- math neu faint y gweithgarwch.
- y strwythur staffio.
- newid mawr yn y model ariannu.

Gallai'r newidiadau gymryd rhagor o amser i'w cyflawni na'r rhybudd a gynigiwyd. Felly nod arian pontio yw cynorthwyo sefydliadau i newid o un model ariannu i un arall.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r newid fod mor ddifrifol fel y gall sefydliadau wneud y penderfyniad anodd i roi'r gorau i weithio neu ddiddymu'r cwmni. Efallai y gall arian pontio hefyd helpu gyda'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a fydd ar gael yn y canllawiau yma.

## 3. Cynnig help llaw – pa fath o gymorth y gallaf wneud cais amdano?

Rydym yn sylweddoli y bydd dod ag arian rheolaidd i ben yn heriol i aelodau o'r Portffolio a gafodd eu hariannu am nifer o flynyddoedd. Rydym yn benderfynol o wneud popeth yn ein gallu i ddiogelu gwerth y buddsoddiad yna, hyd yn oed dan yr amgylchiadau anoddaf.

Mae pum opsiwn ar gael o ran cymorth:

1. **Defnyddio cronfeydd wrth gefn y sefydliad** – byddem yn disgwyl i sefydliad ystyried y defnydd priodol o unrhyw gronfeydd cyffredinol wrth gefn y mae wedi'u cronni.
2. **Defnyddio arian Portffolio yn wahanol** – bydd y swm llawn o arian y Portffolio ar gyfer 2023/24 yn parhau i fod ar gael. Felly, efallai y bydd sefydliad yn dymuno trafod gyda ni'r defnydd gwahanol o unrhyw arian sy'n weddill. Gallai hyn eich tynnu oddi wrth y targedau y cytunwyd arnynt yn eich Cytundeb Arian 2023/24.
3. **Cymorth pontio ymarferol** – efallai y gallwn gynnig cymorth ymarferol i helpu sefydliadau i addasu i'w hamgylchiadau ariannu newydd. Gallai pecyn o'r fath gynnwys cyngor busnes, er enghraifft. Gallwch siarad â ni am sut y gallwn eich helpu gyda hyn.
4. **Cymorth pontio ariannol** – byddai hyn yn cynnwys chwistrelliad untro o arian i gyflawni newid penodol. Bydd sut i wneud cais am gymorth ariannol yn cael ei drafod yn nes ymlaen.
5. **Arian y Loteri** – mewn rhai achosion gallai fod yn briodol ceisio arian ar gyfer gweithgarwch neu fentrau datblygu yn y dyfodol o'n cynlluniau loteri sy'n agored i gais.

Maent yn cynnig fframwaith trafod i gael gwybod y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Nid cam o un i un yw'r rhestr a gweithiwn gyda chi i benderfynu ar y camau gweithredu gorau ichi. Gallai'r ffordd briodol gynnwys un, neu ragor, o'r uchod a gallai'r dewisiadau ddigwydd ar yr un pryd gan ddibynnu ar eich sefyllfa.

Ein nod yw osgoi, lle y gallwn, yr angen am orfodi cau cwmnïau. Nod cymorth pontio yw nodi ffyrdd amgen i sefydliadau barhau i weithio – o bosibl ar sail wahanol. Ond rydym yn cydnabod mai cau yw'r unig opsiwn mewn rhai amgylchiadau. Gallwch wneud cais i ni am help gyda hyn gyda chymorth pontio ariannol os penderfynwch mai dyma'r unig opsiwn ymarferol.

## 4. Am faint y gallaf wneud cais?

Gwyddom y byddai raid i aelodau o'r Portffolio gydbwyso ymgadw mor sefydlog â phosibl yn ystod y flwyddyn o rybudd cyn 31 Mawrth 2024 â'r sylweddoliad y gallent fod heb arian rheolaidd ar ôl y dyddiad yna.

Cyhoeddwn ym Medi 2023 y penderfyniadau am ba sefydliadau fydd yn derbyn cytundebau ariannu amlflwyddyn o Ebrill 2024 ymlaen. Felly bydd gan aelodau aflwyddiannus o'r Portffolio tua 6 mis er mwyn pontio gan ddefnyddio eu harian sy'n weddill ar gyfer 2023/24. Dyma rif 2 ar y rhestr yn Adran 3. Dylech gofio hyn wrth ystyried gwneud cais am fathau eraill o gymorth pontio.

Gan fod rhai sefydliadau'n fwy cymhleth nag eraill, cynigiwn y cyfle i wneud cais am hyd at 3 mis arall (25%) o arian Portffolio 2023/24 fel arian pontio. Mae hwn yn ychwanegol at yr arian sy'n weddill ar gyfer 2023/24. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y gallwn gynnig rhagor (fel arfer mewn achosion lle mae 25% o arian 2023/24 yn llai na £30,000) ond rhaid ichi siarad â ni cyn gwneud cais am swm uwch.

Bydd swm y cymorth ariannol yn amrywio i bob sefydliad gan ddibynnu ar ei arian presennol ac aseswn bob un yn seiliedig ar ei amgylchiadau.

Nid oes sicrwydd y bydd eich cais yn llwyddiannus, ac efallai y byddwn yn cynnig cymorth arall yn hytrach na chymorth ariannol. Gallai cymorth amgen fod yn gynnig am lai o gymorth ariannol.

## 5. Pwy sy'n gymwys i dderbyn cymorth?

Pwrpas cymorth pontio yw cefnogi sefydliadau Portffolio sy'n aflwyddiannus yn eu cais i'r Adolygiad Buddsoddi, sydd eisoes yn derbyn arian Portffolio ac sydd yng Nghymru. Felly ni fydd ymgeiswyr newydd sy'n aflwyddiannus yn eu cais i'r Adolygiad Buddsoddi yn gymwys i wneud cais am y cymorth.

Mae'r rhaglen ar gael i bob sefydliad Portffolio a gafodd wybod na fydd ei arian Portffolio yn parhau y tu hwnt i Fawrth 2024. Ni fydd ar gael i sefydliadau sy'n parhau i dderbyn arian ond ar lefel is o 2023/24 ymlaen.

Os bydd sefydliad Portffolio yn derbyn cynnig is na'i gais ac yn penderfynu peidio â derbyn y cynnig is cyn mis Mawrth 2024, gall wneud cais am gymorth pontio.

Ni allwn dderbyn sefydliadau sy'n apelio yn erbyn ein penderfyniad i'r rhaglen cymorth pontio tra bo'r apêl yn cael ei chlywed. Unwaith y bydd yr apêl wedi'i datrys, bydd y sefydliad Portffolio yn gymwys i'r rhaglen os yw ei arian yn dod i ben ar ôl Mawrth 2024.

## 6. Amcanion y rhaglen

Ein nod yw mabwysiadu dull hyblyg o ddiwallu anghenion sefydliadau unigol. Nid oes unrhyw ddull y bydd yn rhaid ei ddilyn. Ond disgwylir y bydd cymorth fel arfer yn cael ei dargedu tuag at y mathau canlynol o gymorth:

- ailffocysu neu aildrefnu rhaglenni gwaith.
- darparu cymorth busnes a thechnegol i Fyrddau ac uwch staff sy'n gweithredu rhaglenni newid.
- dod o hyd i ffyrdd mwy cost-effeithiol o ddarparu rhaglenni gwaith artistig presennol a/neu weinyddu gweithgareddau'r cwmni.
- archwilio mathau o gydweithio, cynghreirio neu uno a fyddai'n lleihau costau'r sefydliad.
- nodi meysydd newydd o gynhyrchu incwm a chodi arian.
- gwella sylfaen asedau'r sefydliad gan gynnwys offer, sgiliau staff, systemau a chyfalaf gweithio.
- mewn rhai achosion, a lle nad ystyrir bod opsiynau eraill yn ymarferol, gellid defnyddio arian i hwyluso cau'r sefydliad yn drefnus ar sail rhwymedigaethau cytundebol.

Nid nod cymorth pontio yw:

- darparu arian prosiect ar gyfer gweithgareddau celfyddydol.
- bod yn lle arian Portffolio.
- datrys costau cyfreithiol ac anghydfodau.

## 7. Proses derbyn

Gwahoddir pob sefydliad Portffolio cymwys i gwrdd â'n staff, os yw'n dymuno, i drafod y camau mwyaf priodol. Bydd y cyfarfod yn ystyried opsiynau gan gynnwys:

1. **Defnyddio cronfeydd wrth gefn** – byddwn yn trafod sut y gallai unrhyw gronfeydd wrth gefn liniaru cost newid.
2. **Defnyddio arian Portffolio yn wahanol** – ein cyngor efallai fydd defnyddio'r gweddill yr arian Portffolio i ddirwyn i ben y sefydliad yn drefnus neu efallai y bydd sefydliad yn dymuno trafod defnydd gwahanol gyda ni ar gyfer unrhyw arian sy'n weddill.
3. **Cymorth pontio ymarferol** – os barnwn ei bod yn briodol ystyried cymorth pontio penodol, cynghorwn y sefydliad Portffolio sut y gallem gynnig help ymarferol.
4. **Cymorth pontio ariannol** – os credwch fod angen arian ychwanegol ar ben y dulliau eraill o gymorth, gweler isod i ddarganfod pa fath o bethau y gallwn helpu gyda nhw a sut i wneud cais.
5. **Arian y Loteri** – mewn rhai achosion bydd sefydliad Portffolio yn cael ei gynghori i ystyried gwneud cais i'r cynlluniau loteri er mwyn parhau ag elfennau penodol o'i waith. (Ond dylid nodi bod arian loteri yn agored i geisiadau. Asesir pob cais yn ôl ei deilyngdod.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gallai cymorth fod ar ffurf wahanol i'r rhai uchod.

Dylai sefydliad Portffolio sy'n dymuno manteisio ar gymorth pontio gysylltu â'i Swyddog Arweiniol i drafod y camau nesaf. Gwahoddir sefydliadau Portffolio sy'n ceisio cymorth pontio ariannol ychwanegol i nodi crynodeb byr o'r gweithgarwch y maent yn dymuno ei wneud. Dylid gwneud hyn drwy ddefnyddio ein ffurflen gais strategol ar-lein. Gallwn roi dolen y ffurflen ichi ar gais.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i'r cynllun fydd 8 wythnos o ddyddiad y penderfyniad terfynol neu 8 wythnos ar ôl y penderfyniad apêl terfynol os dilynwch y llwybr yna. Ni fydd ceisiadau am gymorth pontio'n cael eu hasesu tra bo penderfyniad apêl yn y fantol. Rhaid i sefydliad Portffolio sy'n penderfynu gwrthod cynnig is wneud cais am gymorth pontio erbyn dechrau'r 8 wythnos ar ôl ein hysbysu o'i benderfyniad i wrthod y cynnig, neu 31 Mawrth 2024.

Wrth asesu achos sefydliad Portffolio, byddwn yn ategu'r wybodaeth yn y ffurflen gais gyda'r wybodaeth sydd gennym eisoes.

Os caiff ei dderbyn i'r rhaglen, gwahoddir y sefydliad Portffolio i lunio Cynllun Prosiect manylach. Aseswn y cynllun a rhaid cael ein cytundeb. Rhagwelwn y byddwch yn defnyddio'r arian mewn 12 mis o gael eich derbyn i'r rhaglen. Ar ôl hynny gallwn dynnu'r arian yn ôl. Os yw eich cynllun am ddefnyddio'r arian dros gyfnod hirach, dylech nodi hyn yn glir fel y cawn gyfle i drafod y mater a'i gytuno.

## 8. Sut y byddwn yn asesu eich cais?

Yn ôl ei rinweddau yr aseswn eich cais ac ni fydd eich cais dan anfantais os gwnewch gais yn ddiweddarach yn ystod y cyfle ymgeisio yn ôl yr amserlen.

Bydd yn cael ei ystyried gan grŵp o'n staff. Aelodau o'r Cyngor fydd yn penderfynu ar geisiadau dros £50,000.

Os bydd llawer o geisiadau, efallai y bydd angen i ni leihau'r hyn y gallwn ei gynnig o ran cymorth ariannol er y credwn y dylai'r cyfyngiadau yma ganiatáu inni gefnogi pob cais cryf.

## 9. A fydd y Cyngor yn cynnig cymorth pontio yn y blynyddoedd i ddod?

Bydd ein newid i ddull llawer mwy hyblyg o ariannu a chefnu ar Adolygiadau Buddsoddi yn golygu y caiff sefydliadau sy'n derbyn arian amlflwyddyn ragor o rybudd (a rhagor o amser i gynllunio) os daw eu harian i ben. O ganlyniad, ni fwriadwn gynnig arian pontio yn y dyfodol. Byddem yn disgwyl i sefydliadau ddefnyddio gweddill yr arian o'u cyfnod ariannu i gefnogi unrhyw bontio angenrheidiol.

Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod yr arian sy'n weddill yn cael ei wario'n briodol a byddwn yn dal i allu cynnig cymorth ymarferol yn ystod y cyfnod rhybudd.